**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 3

# *Ceidwadaeth: Nodweddion Allweddol*

## Canllaw i Athrawon

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Ceidwadaeth: Nodweddion Allweddol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.2.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Ceidwadaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r elfennau Ceidwadol allweddol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, er enghraifft, traddodiad, pragmatiaeth, amherffeithrwydd dynol, awdurdod ac eiddo. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 4, Ceidwadaeth: Ffrydiau Amrywiol, sy'n cyflwyno rhai o'r ffrydiau Ceidwadol pwysig sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.2.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

I ddechrau, mae'r llawlyfr gwybodaeth yn cynnig gorolwg o'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau Ceidwadaeth, gan egluro mai'r consensws cyffredinol ymhlith ysgolheigion yw mai ideoleg a ddatblygodd yn ystod degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw, yn bennaf fel adwaith i'r newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol a ddeilliodd o Chwyldro Ffrainc ym 1789.

Yna, cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i saith o elfennau sydd wedi dod i hawlio lle canolog yn y byd-olwg Ceidwadol, sef traddodiad, pragmatiaeth, amherffeithrwydd dynol, cymdeithas organig, hierarchaeth, awdurdod ac eiddo. Trafodir pob elfen yn ei thro, ac ym mhob achos yn ogystal â chynnig eglurhad o natur unrhyw egwyddorion neu gysyniadau perthnasol, fe geisir sefydlu cysylltiad ag ystod o safbwyntiau gwleidyddol y mae Ceidwadwyr wedi tueddu i'w harddel, er enghraifft: y modd y mae'r dybiaeth bod bodau dynol yn greaduriaid drwg a ffaeledig yn arwain at agwedd benodol ar faterion cyfraith a threfn; neu'r modd y mae'r duedd o ddehongli cymdeithas fel endid organig byw yn arwain at gred ym mhwysigrwydd y teulu a'r gymuned.

Tra bo'r gwahanol elfennau a gyflwynir yn yr adnodd hwn yn rhai sydd wedi dod i gael eu trin fel rhai sydd wedi tueddu i nodweddu'r byd-olwg Ceidwadol – gan ganiatáu i ni wahaniaethu rhwng Ceidwadaeth ac ideolegau gwleidyddol eraill megis Rhyddfrydiaeth neu Sosialaeth – fe ddylid nodi hefyd nad yw pob Ceidwadwr wedi dehongli neu gymhwyso'r elfennau hyn yn union yr un modd dros y blynyddoedd. Yn benodol, mae'n werth nodi bod nifer o'r dadleuon a gaiff eu cysylltu â'r Dde Newydd o'r 1970au ymlaen yn rhai a fu'n llai triw i nifer o elfennau Ceidwadol traddodiadol, megis traddodiad a phragmatiaeth. Fe ddaw hyn yn fwy amlwg i'r disgyblion wrth ystyried cynnwys Adnodd 3 ochr yn ochr â chynnwys Adnodd 4 ac am y rhesymau hynny dyna pam mae un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Adnodd 4 yn gofyn i'r disgyblion ystyried i ba raddau roedd datblygiad y Dde Newydd yn dynodi toriad pendant o Geidwadaeth y blynyddoedd cynt.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae'r llawlyfr gwaith yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n canolbwyntio yn eu tro ar bob un o'r saith nodwedd allweddol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth – traddodiad, pragmatiaeth, eiddo ayb. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cyfres o baragraffau sy'n cynnig atebion i'r cwestiynau yma. Nod hyn yw cynnig cyfle iddynt lunio amryw o ddarnau byr sy'n crynhoi mewn modd digon syml pam mae Ceidwadwyr wedi tueddu i roi pwyslais mawr ar elfennau o'r fath. Fel opsiwn arall, fe ellid defnyddio'r cwestiynau yn y llawlyfr gwaith fel sail ar gyfer cyfres o drafodaethau grŵp.

## DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Ceidwadaeth, tud 161-82.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Ceidwadaeth, tud 55-83.